

CYFARFOD A GYNHALIWYD O BELL DRWY GYFRWNG FIDEO

1. Presennol

Nia Povey, Glyn Griffiths, Llio Griffiths, Richard Jones

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Dafydd Watts

Ymddiheuriadau:

Elin Jones, Dion Roberts

2. Datgan Diddordeb

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Watts ddi-ddordeb yn eitem 4.1 oherwydd ei fod yn byw dros y ffordd i Gae Isaf Carreg Frech.

3. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 29 Mehefin 2020. Cynnig: Nia Povey

Eilio: Glyn Griffiths

4. Materion yn codi o'r Cofnodion

4.1 Anghenion Tai Lleol

Mynychodd Victoria Kelly, Hwylusydd Tai Gwledig sy'n gweithredu ar ran cymdeithasau tai gogledd Cymru'r cyfarfod. Eglurodd Victoria Kelly mae ei gwaith yw gweithredu ar ran cymdeithasau tai gan geisio darganfod yr angen sydd yna am dai mewn ardaloedd gwledig.

Mae llythyr wedi ei ddanfôn at drigolion lleol yn gofyn iddynt gwblhau holiadur ar y we yn holi am anghenion tai yn lleol. Dim ond 11 sydd wedi ymateb i'r holiadur hyd yn hyn. Mae'r dyddiad cau wedi ei ymestyn hyd at 15 Medi, a rhif ffôn bellach wedi ei ychwanegu i'r llythyr gam fod rhai heb ymateb oherwydd dim adnoddau rhyngrwyd.

Mae' llythyr wedi mynd i blwyf Llanfrothen yn unig, er mae croeso i unrhyw un arall ei lenwi.

Deallir mai ADRA sydd wedi gofyn am yr arolwg. Mae ganddyn nhw dir yn eu perchnogaeth uwchben ystâd Garreg Frech yn Llanfrothen. Mae asesiad cychwynnol wrthi'n cael ei wneud am addasrwydd y tir, ond mae'n debyg fod yna le i 10 tŷ fyddai'n dai cymdeithasol ond yn gymysgedd o dai o ran maint.

Tra'n cytuno fod COVID-19 wedi bod yn rhwystr, mynegwyd barn y byddai'r Cyngor Cymuned wedi hoffi cael trafodaeth a chydweithio cychwynnol i ddechrau cyn bod materion yn symud ymlaen.

Hefyd o ran Adra byddai'n well pe byddent wedi cysylltu efo trigolion Garreg Frech i ddechrau cyn gwneud gwaith ar gae Carreg Frech, gan fod y diffyg ymgynghori cychwynnol yma wedi arwain at gam ddealltwriaeth ac anniddigrwydd yn lleol. Arweiniodd hyn at drigolion Garreg Frech yn danfon deiseb at y Cyngor Cymuned yn mynegi pryder ar un rhyw ddatblygiad pellach yn Garreg Frech, ac yn enwedig na fyddai trigolion lleol yn cael blaenoriaeth. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at ADRA yn mynegi anniddigrwydd parthed hyn.

Gofynnwyd am gael amserlen ddiwygiedig o ran cwblhau'r holiadur, fel bod trigolion lleol yn cael mwy o amser i ymateb. Cytunodd Victoria Kelly i ofyn am ymestyniad.

Eglurodd Victoria Kelly fod yna griteria penodol ar gyfer sicrhau mai pobl leol, ac nid pobl o bell fyddai'n cael byddai'n cael hawl ar y tai. Mae lleol yn golygu trigolion plwyf Llanfrothen, ac yna ehangir y cylch bob yn 2km hyd at 6km os nad oes galw lleol. Bydd yn danfon copi o'r criteria yma atom.

Y camau nesaf yw y bydd Victoria Kelly yn aros am ganlyniad yr holiadur tai gwledig ac asesiad ADRA, cyn cysylltu efo'r Cyngor Cymuned.

Cytunwyd hefyd i gynnal cyfarfod cyhoeddus yn fuan, drwy gyfrwng y we, unwaith y bydd mwy o wybodaeth ar gael, a chyfarfod fel Cyngor Cymuned er mwyn trafod y mater ymhellach, nos Lun 14 Medi 2020.

4.2 13 Garreg Frech

Y Clerc wedi ysgrifennu at Helen Mary Jones, aelod Senedd Cymru parthed y mater. Disgwylir ymateb.

4.3 Y Ganolfan

Bu'r Cyngor Cymuned y llwyddiannus yn cael y grant COVID-19 gwerth £10,000 gan Gyngor Gwynedd.

Cytunwyd mai'r peth callaf fyddai cael Cyngor Gwynedd i gynnal asesiad o gyflwr yr adeilad yn gyntaf cyn penderfynu ar gamau pellach.

4.4 Mynwent Tan Lan

Cafwyd pris gan Richard Pearson ar gyfer torri coed yn y fynwent. Mae wedi prisio torri coed ynn sydd yn dioddef o glefyd coed ynn, ond nid yw'n glir os yw'r rhain yn rhan o dir y fynwent ai peidio.

O ran y goeden sydd wedi dymchwel yng nghornel y fynwent y tu ôl i'r cwt, yna mae'n bosibl fod y goeden hon ar dir Stad Brondanw, a gan ei bod wedi cwmpo beth bynnag, dydy hi ddim yn glir fod angen gwneud dim byd efo'r goeden hon.

O ran y goeden sycamorwydden sy'n tyfu ger mynedfa'r fynwent, yna byddai Richard Pearson yn torri hon am ddim os yn gwneud gwaith arall yn y fynwent.

Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Richard Jones a Glyn Griffiths yn trafod y mater ymhellach efo Richard Pearson.

4.5 Eglwys Sant Brothen

Mae'r Clerc wedi holi ymgymerydd lleol a Chyngor Gwynedd am hanes Eglwys a Mynwent Sant Brothen. Yn anffodus, doedd dim un o'r ymgymerydd yn medru taenu golau ar eu hanes na'u perchnogaeth. Disgwylir ymateb gan Gyngor Gwynedd.

Mae Ffrindiau Eglwysi Di-Ffrindiau wedi gofyn a fyddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon iddyn nhw dorri'r gwair a thacluso tu allan i'r Eglwys - y darn y maen nhw yn ei ddweud sydd ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned.

Gan nad oes sicrwydd fod y Cyngor Cymuned berchen y darn tir dan sylw, penderfynwyd na allai'r Cyngor Cymuned roi caniatâd.

4.6 Goryrru Llanfrothen

Disgwylir canlyniadau arolwg goryrru Cyngor Gwynedd yn fuan.

4.7 Cyfethol Aelod

Ni ddangosodd neb ddiddordeb yn y swd wag, ac felly mae angen ail hysbysebu unwaith eto.

4.8 Claddu Peilonau o dan yr afon Dwryd/Llwybr Beics Llanfrothen

Cafwyd manylion pellach gan National Grid ar sut i gael unrhyw fuddiant cymunedol o'r prosiect yma. Ni fydd cynghorau cymuned yn medru cael budd uniongyrchol ac felly mae angen edrych ar sefydlu menter ar y cyd, e.e. efo sefydliadau tebyg i Benrhyndeudraeth Cyf.

Gam nad oedd amser i drafod y mater yn fanwl, cytunwyd i drafod y mater eto, a chael y Cynghorydd Gareth Thomas i fynychu.

5. Materion Ariannol

5.1 Cyflog Clerc Gorffennaf 2020 - £214.20

TWE £53.60

5.2 Cyflog Clerc Awst 2020- £214.20

TWE £53.60

5.3 Anfonb Michael Kerr 7 Awst 2020 – agor bedd i gladdu llwch £90.00

5.4 Anfoneb Dunn & Ellis 31 Gorffennaf 2020, rhif 112119, £59.40 -
- talwyd yn barod

5.5 Derbyn ail daliad Praesept 2020/21 28 Awst 2020 £4,150.00

5.6 Derbyn taliad gan Gyngor Gwynedd, claddedigaeth plentyn,
£150.00

5.7 Monitro'r Gyllideb a Balans yn y banc, 30 Awst 2020 £18,915.89
(hyn ddim yn cynnwys y swm o £10,000 grant COVID ar gyfer y
Ganolfan).

Cafwyd trafodaeth ar wariant y flwyddyn a'r rhagolygon ar gyfer gweddill y flwyddyn.

Cytunwyd i wneud y taliadau uchod.

6. Gohebiaeth

Dim

7.Ceisiadau Cynllunio

Dim

8. Materion Eraill

8.1` Amcanion Gwella a Llesiant Parc Cenedlaethol Eryri 2021-2016

Cytunwyd i drafod y mater yma yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

8.2 Cyrsiau Hyfforddiant Un Llais Cymru

Cytunwyd i drafod mynychu cyrsiau Un Llais Cymru pan fydd aelod newydd wedi ei gyfethol.

8.3 Cefnogi Cynnig Cyngor Cymuned Llanllyfni i godi tâl ar ymwelwyr â'r Wyddfa

Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi cynnig Cyngor Cymuned Llanllyfni i alw am gyfarfod efo Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd er mwyn trafod codi tal ar ymwelwyr i'r Wyddfa

8.4 Amserlen Flynyddol – Aseiad Risg Y Ganolfan, Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Penderfynwyd gohirio gwneud aseiad risg Y Ganolfan hyd nes bod Cyngor Gwynedd wedi bod i asesu cyflwr yr adeilad.

8.5 Cyfarfod Blynyddol

Mae'n rhaid cynnal cyfarfod blynyddol erbyn 31 Rhagfyr 2020.

Cytunwyd anelu am gynnal y cyfarfod blynyddol yn ystod mis Tachwedd 2020. Gellir cynnal y cyfarfod ar y we, ond bod angen rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd fedru ymuno.

8.6 Tŷ Obry, Llanfrothen

Gofynnodd aelod o'r gymuned beth oedd sefyllfa defnydd Tŷ Obry Llanfrothen. Mae yna arwydd yn cyfeirio at logi canws yno, ac fe greidir fod yna rai yn preswyllo yno mewn chalets hefyd. Gofynnwyd os oedd yna ddarpariaeth carthffosiaeth i'r safle.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at adran gynllunio Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt ymchwilio.

<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf – cyfarfod o bell – Medi 14 2020 am 7:30 yr hwyr</p>
